

## Agenda – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

---

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Hybrid – Ystafelloedd Pwyllgora 1 a 2 a	Naomi Stocks
Chynhadledd Fideo drwy Zoom	Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mercher, 10 Mai 2023	0300 200 6565
Amser: 09.30	<a href="mailto:SeneddPlant@senedd.cymru">SeneddPlant@senedd.cymru</a>

---

### Rhag-gyfarfod preifat

(09.00 – 09.10)

Yn ei gyfarfod ar 3 Mai, cytunodd y Pwyllgor ar gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw ar gyfer eitem 1

### 1 Gweithredu diwygiadau addysg – y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau ymgysylltu

(09.10 – 09.30)

(Tudalennau 1 – 14)

Dogfennau atodol:

Diwygio Addysg – Nodyn Cryno – CYPE(6)-14-23 – Papur preifat

### 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

### 3 Gweithredu diwygiadau addysg – Sesiwn graffu ar waith y Gweinidog

(09.30 – 10.45)

(Tudalennau 15 – 97)

Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Hannah Wharf, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr

Georgina Haarhoff, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran y Cwricwlwm, Asesu a Gwella Ysgolion

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

Llywodraeth Cymru – CYPE(6)-14-23 – Papur 1

Sesiwn friffio ar yr astudiaeth aml-garfan ym maes addysg gan Sefydliad



- 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn**  
(10.45)

**Egwyl**

(10.45 – 11.00)

- 5 Gweithredu diwygiadau addysg – trafod y dystiolaeth**  
(11.00 – 11.15)

- 6 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical – trafod yr adroddiad drafft**

(11.15 – 12.30)

(Tudalennau 98 – 220)

Dogfennau atodol:

Adroddiad Drafft – CYPE(6)-14-23 – Papur preifat

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Jeremy Miles AS/MS**  
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg  
Y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JMEWL/1151/23

Jayne Bryant AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

27 Ebrill 2023

Annwyl Jayne

Amgaeaf ddau bapur tystiolaeth i gefnogi'r Pwyllgor yn ei ymchwiliad i'r broses o roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith a diwygiadau i Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n mynd rhagddo.

Mae'r papur ar y Cwricwlwm i Gymru yn amlinellu'r cynnydd a wnaed i ddiwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau cymorth penodol sydd ar waith i ysgolion a lleoliadau. Mae hefyd yn defnyddio cam cyntaf ymchwil "[ar weithrediad cynnar](#)" sy'n cael ei gyhoeddi heddiw, a fydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor, mae'n siŵr gen i.

Edrychaf ymlaen at fod yn bresennol yn y Pwyllgor unwaith eto ar 10 Mai.

Yn gywir

**Jeremy Miles AS**  
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales](mailto:Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

10 Mai 2023

## Gweithredu Cwricwlwm i Gymru

### 1. Cyflwyniad

- 1.1 Fel y'i nodwyd yn ein [hadroddiad blynyddol ar weithredu'r cwricwlwm](#) yn 2022, rydym yn gwneud gwaith ymchwil yn ystod y flwyddyn 2022/23 er mwyn cael dealltwriaeth gyfredol o brofiadau cychwynnol ysgolion a dysgwyr o'r Cwricwlwm i Gymru. Gwneir hyn ar ddau gam; cyhoeddwyd [adroddiad cyntaf ar “ymchwil ar weithrediad cynnar”](#) ar 27 Ebrill. Mae'n cyflwyno canfyddiadau ansoddol o gyfweiliadau â 64 o uwch-arweinwyr mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion<sup>1</sup>. Ceir rhagor o wybodaeth am fonitro a gwerthuso yn adran 4.
- 1.2 Mae cydweithio agos ag Estyn, y consortia rhanbarthol, partneriaethau ac awdurdodau lleol o ran gweithredu'r cwricwlwm yn cynnwys adborth rheolaidd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gan ysgolion a lleoliadau a materion sy'n codi. Cyhoeddodd Estyn wybodaeth gysylltiedig yn ei [Hadroddiad Blynyddol](#). Rydym hefyd yn ategu'r wybodaeth hon â gweithgarwch ymgysylltu ag ymarferwyr drwy'r [Rhwydwaith Cenedlaethol](#), a gwaith rhaglenni cymorth, megis [Camau I'r Dyfodol](#).
- 1.3 Felly, mae'r papur hwn yn defnyddio nifer o ffynonellau a rhoddir dolenni i dystiolaeth a gwybodaeth gyhoeddedig (lle y bo modd). Mae hyn yn cynnwys [adroddiad Archwilio Cymru](#) ar weithredu'r cwricwlwm ac [ymatebion Llywodraeth Cymru](#).
- 1.4 Nod y papur hwn yw llywio ystyriaethau'r Aelodau cyn adroddiad blynyddol llawnach 2023 ar weithredu'r cwricwlwm, y bwriedir ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf.

### 2. Cynnydd ar ddiwygio'r cwricwlwm

#### Trosolwg

- 2.1 Mae pob lleoliad ac ysgol gynradd a thua hanner yr ysgolion uwchradd yn gweithredu o dan Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar hyn o bryd, ac ers dau dymor academiaidd rydym wedi dechrau ar broses y cydnabyddir ei bod yn un hirdymor i wireddu'r cwricwlwm. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn pwysleisio pa mor

---

<sup>1</sup> Mae risg o duedd wrth ddethol ymhlith y sampl o ysgolion a gymerodd ran yn yr ymchwil. Mae'n bosibl bod y rhai a oedd wedi mynd ymhellach nag eraill yn eu gweithgareddau wedi bod yn fwy tebygol o gytuno i gymryd rhan yn y cyfweiliadau.

bwysig ydyw bod ysgolion a lleoliadau yn parhau i dreialu, gwerthuso a gwella eu cwricwla fel rhan o'r daith gwelliant parhaus.

- 2.2 Mae tua 530 o feithrinfeydd gofal plant nas cynhelir ("lleoliadau") wedi'u cofrestru ac wedi'u hariannu ar gyfer dysgu cyfnod sylfaen o dan y Cwricwlwm i Gymru, sy'n gwasanaethu tua 10,000 o blant ifanc 3-4 oed. O ran gweithredu'r cwricwlwm, mae mwy o deimlad o fomentwm mewn lleoliadau, ac mae pob awdurdod lleol yn rhoi cynlluniau ar waith i wella'r ddealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, gall yr ymdeimlad hwn o gymhelliant a gweithredu ar frys weithiau, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, fywiogi neu lethu rhywun. Er bod cynnydd a gwelliant yn hanfodol, rydym hefyd yn cydnabod nad taith ar hyd llinell yw hon. Mewn lleoliadau, erys ymdeimlad sicr o benderfyniad i greu cyfleoedd datblygiadol o ansawdd uchel i ddysgwyr sy'n defnyddio gofal plant ac addysg yn y sector nas cynhelir ac rydym yn hyderus o hyd bod cynnydd yn cael ei wneud mewn ffordd gynaliadwy.
- 2.3 I ysgolion, mae Estyn yn nodi bod yr heriau a achoswyd gan bandemig COVID-19, gan gynnwys cyfyngu ar gyfleoedd i ymarferwyr gynllunio cwricwla a chydweithio ag eraill, wedi golygu mai cynnydd amrywiol a wnaed. Mae ymchwil fwy diweddar ar weithrediad cynnar hefyd yn dangos bod cynnydd yn cael ei wneud ar gyflymder gwahanol. Mae'r rhai sydd wedi bod yn cynllunio ers tair neu bedair blynedd yn fwy hyderus na'r rhai a deimlai eu bod ar gam cynharach o'r broses weithredu. Yn yr un modd, mae cynnydd yn cael ei wneud yn gyflymach mewn rhai rhannau o'r cwricwlwm nag eraill.
- 2.4 Er gwaethaf hyn, mae'r dystiolaeth yn nodi cynnydd gwirioneddol ledled Cymru, gan gynnwys enghreifftiau o arferion cyffrous. Mae uwch-arweinwyr yn nodi boddhad cyffredinol gyda'r cynnydd y mae eu hysgol yn ei wneud. Maent yn nodi bod ymarferwyr yn teimlo hyder cynyddol yn y Cwricwlwm i Gymru y maent wedi'i gynllunio a'r broses gyflwyno a chymryd perchnogaeth ohono. Mae'n galonogol bod yr adborth cynnar yn tynnu sylw at ffocws cynyddol ar addysgeg a mwy o gydweithio o fewn ysgolion a rhwng ysgolion o ganlyniad i'r diwygiadau hyn. Yn yr ymchwil ar weithrediad cynnar hefyd gwelwyd mwy o ymdeimlad o ymreolaeth ymarferwyr yn datblygu ymhlith staff ysgol wrth i ymarferwyr ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am weithredu'r cwricwlwm a theimlo mwy o berchnogaeth ohono. Ymddengys fod cydnabyddiaeth gynyddol mai proses tymor hwy yw diwygio'r cwricwlwm o ran natur, yn hytrach na digwyddiad unwaith ac am byth.
- 2.5 Mae bron bob ysgol a lleoliad sydd wedi mabwysiadu'r Cwricwlwm i Gymru wedi bodloni'r gofyniad i gyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm. Rhoddir cymorth i'r rhai sydd eto i wneud hynny. Ochr yn ochr â hynny, rydym yn cyhoeddi adnodd pecyn cymmorth wedi'i gyd-awduro ar grynodedbau o'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir.
- 2.6 Er bod ysgolion a lleoliadau yn gwneud cynnydd o ran datblygu dulliau gweithredu a'u rhoi ar waith, erys meysydd lle rhoddir ffocws o hyd. Ystyrir y rhain ymhellach isod.

### **Clystyrau cynradd ac uwchradd a chydweithio**

- 2.7 O ganfyddiadau'r ymchwil, rydym yn cael y teimlad bod ysgolion wedi hen ddechrau ar eu taith ddatblygu. Maent yn cydweithio'n fwyfwy mewn clystyrau i

gefnogi dulliau o ddatblygu cwricwlwm. Mae gwaith mewn clystyrau rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwaith cynllunio ar gyfer cynnydd; sicrhau parhad yn y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm; datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, gan gynnwys sut y dylai gael ei fynegi. Mae'n ymddangos bod gweithio mewn clwstwr wedi chwarae rôl bwysig i helpu ysgolion i ddatblygu dulliau gweithredu ar y cyd a lleddfu'r ansicrwydd yr oedd ysgolion yn ei deimlo cyn hynny. Mae gweithio mewn clwstwr yn ofyniad pwysig i wireddu'r cwricwlwm yn llwyddiannus ac mewn ffordd gyson ledled Cymru, felly mae hwn yn gam pwysig.

- 2.8 Er bod ysgolion yn cydnabod ei bod yn bwysig ac yn werthfawr gweithio mewn clwstwr, erys heriau o hyd. Mae gallu staff i gydweithio yn her o hyd i arweinwyr ysgol, ac mae cydweithio mewn clwstwr ar gam cynnar o hyd, sy'n canolbwyntio ar elfennau penodol o'r Cwricwlwm i Gymru (e.e. Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb). Mae'n ymddangos bod cydweithio yn gryfach mewn rhai Meysydd o'r cwricwlwm nag eraill, ac mae angen o hyd roi pwyslais ar ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd o fewn ysgolion a rhyngddynt.

### **Dealltwriaeth gyffredin o gynnydd**

- 2.9 Mae dealltwriaeth gyffredin o gynnydd yn rhan annatod o gynllunio'r cwricwlwm a chefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod ysgolion yn gweithio'n fewnol a chydag ysgolion eraill i ddeall disgwyliadau ar y cyd o ran sut y dylai dysgwyr wneud cynnydd a sut mae gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau yn cyfrannu at hyn; cefnogi cynnydd cydlynol i ddysgwyr drwy gydol eu taith ac yn enwedig ar adegau pontio; a sicrhau bod digon o gyflymder a her yn eu disgwyliadau i ddysgwyr. Mae'n ofynnol i ysgolion roi trefniadau ar waith i ddatblygu a sicrhau dealltwriaeth gyffredin o gynnydd ac amlinellu'r manylion mewn cynllun.
- 2.10 Arweinwyr ysgolion a lleoliadau sydd yn y sefyllfa orau i ddatblygu'r trefniadau mwyaf priodol i sicrhau cyfleoedd parhaus i ymarferwyr gymharu eu syniadau ag ysgolion a lleoliadau eraill, gan ei gwneud yn bosibl i ymarferwyr fyfyrion ar eu dealltwriaeth o gynnydd ac i ysgolion a lleoliadau bennu disgwyliadau cyson. Rydym yn ymwybodol o'r heriau a wynebir weithiau drwy ryddhau ymarferwyr i gynnal y ddeialog broffesiynol hon ynglŷn â chynnydd. Rydym yn cynghori ysgolion i adeiladu ar strwythurau a chydberthnasau sy'n bodoli eisoes (e.e. cyfarfodydd staff / adrannol / trawsadrannol rheolaidd yn yr ysgol; a chlystyrau / rhwydweithiau rhwng ysgolion).
- 2.11 Rydym yn gweithio gyda chonsortia rhanbarthol, partneriaethau ac awdurdodau lleol y tymor hwn i gael sicrwydd ynglŷn â'r trefniadau a'r cynlluniau y mae ysgolion a lleoliadau wedi'u rhoi ar waith, a pha gymorth pellach sydd ei angen arnynt i fodloni'r gofynion hyn. Byddwn yn rhoi diweddariad llawnach yn yr adroddiad blynyddol ar y Cwricwlwm i Gymru ym mis Gorffennaf.

### **Cynnydd ac asesu**

- 2.12 Canfu'r ymchwil ar weithrediad cynnar fod uwch-arweinwyr yn datblygu cynlluniau cynnydd ym Meysydd y cwricwlwm, gan ymgorffori egwyddorion cynnydd gorfodol wrth gynllunio cwricwlwm er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn



cynyddu rhychwant eu gwybodaeth, atgyfnerthu a dwysáu dealltwriaeth, a chreu cysylltiadau a chymhwyso dysgu mewn cyd-destunau gwahanol. Maent yn cydnabod y pwyslais ychwanegol ar y cynnydd a wneir gan y dysgwr unigol fel rhan o'u syniadaeth a'u gwaith cynllunio mewn perthynas â chynnydd. Cydnabu uwch-arweinwyr hefyd fod dulliau newydd o ymdrin â chynnydd dysgwyr yn gofyn am newid ym meddylfryd ymarferwyr, sy'n debygol o gymryd amser i ymsefydlu.

- 2.13 Mae'r ymchwil hefyd yn dangos bod ysgolion yn newid y ffordd y maent yn rhannu gwybodaeth am gynnydd â rhieni a gofalwyr, a nododd uwch-arweinwyr newid i'w groesawu tuag at gyswllt mwy personol â nhw o ran dysgwyr unigol.
- 2.14 Nododd ysgolion hefyd rai heriau, gydag arweinwyr cynradd yn codi'r risg y gallai dulliau amrywiol o ymdrin â chynnydd gyfrannu at system 'ddarniog' lle mae ysgolion yn mynd i gyfeiriadau gwahanol. Er i'r ymchwil gydnabod bod ysgolion yn gweithio mewn clystyrau i sicrhau cysondeb, gallai'r amser a oedd ei angen i wneud hyn dynnu sylw oddi ar weithgarwch arall. Mewn ysgolion uwchradd, mynegodd arweinwyr bryder ynglŷn â sut y dylid sicrhau bod dulliau gweithredu ar gynnydd (ac asesu) yn bodloni gofynion o ran atebolrwydd a gofynion statudol. Roedd rhai yn teimlo bod camau cynnydd y cwricwlwm yn cael eu camddeall gan ymarferwyr a oedd yn eu hystyried yn 'fframwaith asesu'. Mewn rhai ysgolion, mae amharodrwydd ymhlith ymarferwyr i newid o'r dulliau presennol o olrhain cynnydd dysgwyr, er enghraifft parheir i ddefnyddio lefelau'r hen Gwricwlwm Cenedlaethol, yn ogystal â'r ffordd y caiff yr wybodaeth hon ar gynnydd dysgwyr ei chyfleu i rieni.
- 2.15 Yn gysylltiedig â'r gwaith ar ddatblygu cynnydd dysgwyr ac fel y'i nodwyd yn yr adroddiad blynyddol ar y cwricwlwm y llynedd, mae cefnogi dealltwriaeth a hyder y proffesiwn ynglŷn ag asesu yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn y gwaith sy'n mynd rhagddo gennym i helpu i'w weithredu'n llwyddiannus. Rydym wedi bod yn gweithio gyda chonsortia rhanbarthol a chydweithwyr sydd mewn partneriaeth â ni drwy gydol y flwyddyn i ymgorffori'r adnoddau asesu, a ddatblygwyd yr haf diwethaf, yn y cymorth i asesu a gynigir ganddynt, gan hyrwyddo a chefnogi eu defnydd, a sicrhau eu bod yn werthfawr i ysgolion ac ymarferwyr. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r arweinydd academaidd sy'n gyfrifol am weithdai Asesu ar gyfer y Dyfodol CAMAU i ystyried yr adborth a gafwyd wrth ddatblygu'r gweithdai er mwyn nodi meysydd pellach lle y gellid targedu cymorth penodol.
- 2.16 Mae'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022, yn nodi'n glir na ddylid asesu "at ddibenion atebolrwydd yn unig" ond, yn hytrach, y dylai'r wybodaeth gyfoethog a geir o asesu fod yn sail i arferion hunanwerthuso a gwella mewn ysgolion, er mwyn sicrhau safonau uwch.
- 2.17 Adolygodd adroddiad Estyn yn 2022 ar [Ymagweddau effeithiol wrth asesu sy'n gwella addysgu a dysgu](#) sut roedd ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed ac arbennig a gynhelir yn datblygu dulliau effeithiol o asesu sy'n gwella prosesau dysgu ac addysgu. Mae'r adroddiad yn cefnogi egwyddorion sylfaenol asesu yn y Cwricwlwm i Gymru, gan dynnu sylw at arferion da mewn llawer o ysgolion a chydabod rôl hollbwysig asesu o ran cefnogi cynnydd dysgwyr.

- 2.18 Canfu'r ymchwil ar weithrediad cynnar fod dulliau newydd o asesu yn cael eu datblygu, gyda mwy o ffocws ar asesu ffurfiannol o ddydd i ddydd. Nododd arweinwyr cynradd ac uwchradd newid bwriadol tuag at asesu ar gyfer dysgu a'i ymgorffori ymhlith pob aelod o'r staff. Nododd llawer eu bod wedi bod yn ymwybodol o werth asesu ar gyfer dysgu, ond bod y Cwricwlwm i Gymru wedi bod yn sbardun i gyflwyno newid.
- 2.19 Mae'r ymchwil hefyd yn tynnu sylw at leihad yn nifer yr asesiadau ffurfiol drwy gydol y flwyddyn, ond mae ysgolion yn parhau i ddefnyddio asesiadau personol cenedlaethol i fesur cynnydd ym maes darllen a rhifedd. Pwysleisiodd rhai uwch-arweinwyr eu pwysigrwydd parhaus i feincnodi cyrhaeddiad dysgwyr. Mewn achosion eraill, defnyddir asesiadau personol i fapio'r hyn sydd / nad yw wedi cael ei gwmpasu'n ddigonol, yn hytrach na deall safonau neu lefelau dysgwyr. Mae hyn yn adlewyrchu newid i'w groesawu a fynegwyd gan nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd tuag at ddefnyddio gwybodaeth asesu i gefnogi a gwella gwaith cynllunio'r cwricwlwm.

### **Lle ac amser**

- 2.20 Un her gyffredin o hyd yw sicrhau bod staff yn cael y lle a'r amser i gymryd rhan yn y broses o gynllunio'r cwricwlwm, a chydweithio ar ddulliau gweithredu o fewn ysgolion a rhyngddynt. Mae'r ymchwil ar weithrediad cynnar yn nodi bod uwch-arweinwyr wedi cyfeirio at ryddhau staff i fynd i sesiynau, trefnu staff cyflenwi, a mynediad digonol at gyllid fel rhan o'r broblem hon.

### **Dysgu gan y rhai sydd wedi mynd ymhellach**

- 2.21 Mae Estyn yn nodi, mewn ysgolion cynradd, fod profiad o addysgeg dysgu'r cyfnod sylfaen a dull mwy sefydlog o gymhwyso sgiliau mewn ffordd drawsgwricwlaidd wedi helpu athrawon i ddechrau addasu eu haddysgeg a chyflwyno profiadau dysgu mwy dilys. Mewn ysgolion uwchradd sy'n gwneud cynnydd addas, maent yn canolbwyntio ar wella addysgu, gan ddatblygu dealltwriaeth y staff a'r cwricwlwm a chynnydd mewn dysgu, ac ystyried yn ofalus sut maent yn ymdrin â phontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd.
- 2.22 Yn yr achosion gorau, mae Estyn nodi bod ymarferwyr wedi myfyrio'n dda ar effaith eu hymagweddau ar gynnydd dysgwyr. Mae ysgolion o'r fath hefyd yn edrych yn fwyfwy ar ymchwil genedlaethol a rhyngwladol ac addasu syniadau at eu cyd-destun eu hunain mewn ffordd fwy pwrpasol. O ran cynllunio'r cwricwlwm, yn yr achosion gorau, mae arweinwyr wedi sicrhau ffocws cyntaf ar ddatblygu gweledigaeth gydweithredol ar gyfer eu cwricwlwm yn seiliedig ar ymgysylltu â dysgwyr, rhieni, staff a'r gymuned.

### **Rheoli diwygiadau i'r cwricwlwm ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**

- 2.23 Mae'r amgylchedd dysgu gorau, sef dysgu ac addysgu o ansawdd sy'n dechrau ag anghenion y dysgwr, wrth wraidd diwygiadau'r Cwricwlwm i Gymru a'r diwygiadau i ADY. Mae cynnydd mewn dysgu i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag ADY, fel y gall pob un ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir ym [mhedwar diben](#) y cwricwlwm.

- 2.24 Mae swyddogion cwricwlwm ac ADY wedi ymgynnull mewn grŵp ymarferwyr ar yr heriau a'r cyfleoedd penodol a ddaw yn sgil cyflwyno diwygiadau'r Cwricwlwm i Gymru a diwygiadau i ADY ar yr un pryd. Mae'r grŵp yn ystyried cymorth ychwanegol, yn ogystal â rhannu profiadau eu hysgolion, eu lleoliadau, eu clystyrau a'u rhwydweithiau.
- 2.25 Maent wedi tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â dealltwriaeth rhieni sydd, mewn rhai achosion, wedi cynyddu nifer y cyfarfodydd rhwng Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol a rhieni a gofalwyr plant ag ADY. Rhwystredigaeth arall yw bod ADY weithiau'n cael ei ystyried yn fater y mae Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gyfrifol amdano, yn hytrach na phob ymarferydd. Mae cyllid hefyd yn achos pryder i rai aelodau'r grŵp sydd wedi nodi'r angen am gyllid digonol o ran darpariaeth sydd ar gael i bawb a chefnogi dysgwyr ag ADY, a bod angen i hyn adlewyrchu cyd-destun yr ysgol neu'r lleoliad unigol.
- 2.26 Mae'r ymchwil ar weithrediad cynnar yn tynnu sylw at y cyfleoedd a'r heriau a wynebir gan ymarferwyr mewn perthynas â thegwch a diwygio'r cwricwlwm. Mae uwch-arweinwyr yn nodi bod tegwch bob amser wedi bod yn ffocws pwysig ond bod mwy o bwyslais ar ddulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dysgwyr erbyn hyn wrth gynllunio cwricwlwm a monitro cynnydd dysgwyr, gyda hyblygrwydd i deilwra cymorth. Mae'r ffocws cynyddol ar lais dysgwyr yn cyfrannu at ddatblygu cwricwla sy'n canolbwyntio ar y dysgwyr ac sy'n gynhwysol. Nodwyd hefyd fod newid yn y cyd-destun dysgu i fod yn fwy amrywiol ac adlewyrchu ein cymdeithas yn well. Eto i gyd, erys pryder o hyd ynglŷn â bylchau mewn cyrhaeddiad sydd wedi mynd yn waeth o ganlyniad i effeithiau'r pandemig.

### **Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

- 2.27 Yn sgil yr arolygiad barnwrol o'r Cod a'r canllawiau ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn 2022, lle y rhoddodd y barnwr ddyfarniad a oedd yn sicr o blaid Llywodraeth Cymru, mae ysgolion wedi nodi darlun sefydlog iawn ar y cyfan: maent yn dechrau gwireddu'r Cod a datblygu dulliau gweithredu ar gyfer agweddau nad ydynt mor hyderus yn eu cylch. Gwnaeth y dyfarniad roi cadarnhad clir iawn o'n dull gweithredu er mwyn i ysgolion fod yn hyderus ynddo. Yn benodol: dywedodd y barnwr:
- “There is nothing in the Code or the Guidance that authorises or positively approves teaching that advocates or promotes any particular identity or sexual lifestyle over another, or that encourages children to self-identify in a particular way.*
- “...In my judgment, both the Code and the Guidance reflect the general spirit of the (European Convention of Human Rights) as an instrument designed to maintain and promote the ideals and values of a modern liberal democracy, including the values of tolerance, respect and equality.”*
- 2.28 Yn achos llawer o ysgolion, nid ydynt wedi rhoi gwybod am bryderon ynglŷn ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gan rieni na gofalwyr. Lle y rhoddwyd gwybod am bryderon cyn yr adolygiad barnwrol, mae'r sefyllfa yn llawer mwy sefydlog erbyn hyn. Rydym yn parhau i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol i fonitro'r sefyllfa a chefnogi clystyrau penodol lle mae pryderon mawr yn y gymuned.

- 2.29 Rydym wedi dweud yn glir iawn wrth ysgolion y dylent, yng nghyd-destun eu dyletswyddau cyfreithiol, gymryd yr amser i sicrhau bod eu dull gweithredu yn gywir: cynllunio agweddau nad ydynt mor gyfforddus â nhw a dewis adnoddau a rhannu'r rhain ymlaen llaw â rhieni a gofalwyr. Rydym wedi eu hannog i siarad â chonsortia rhanbarthol a phartneriaethau am adnoddau. Ni ddylai ysgolion ddefnyddio adnoddau nac addysgu rhywbeth nad ydynt yn hyderus eu bod yn ddatblygiadol briodol. Mae ysgolion yn ymddangos yn glir iawn ar y cyfan o ran deall pwysigrwydd cyfathrebu rhagweithiol ar gam cynnar.
- 2.30 Rydym wedi cefnogi hyn drwy nifer o ddeunyddiau sydd wedi'u hanelu at rieni, gofalwyr a chymunedau ehangach sy'n helpu i chwalu rhai o'r camdybiaethau ynglŷn ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i helpu ysgolion ymateb i bryderon a godir. Rydym yn parhau i weithio gyda chymunedau i'w helpu i ddeall ethos a gofynion Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a chwalu camdybiaethau sydd wedi codi o ganlyniad i gamwbyodaeth.
- 2.31 Erys hyder ymarferwyr a chefnogaeth i ddarpariaeth yn heriau pwysig o hyd. Mae ein dull gweithredu yn cynnwys dysgu proffesiynol yn ogystal â'r adolygiad systematig o'r holl adnoddau dwyieithog a defnyddiau ategol ar ein llwyfan addysg Hwb. O ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mae hyn yn cynnwys swyddogion, ymarferwyr ac arbenigwyr cysylltiedig yn cydweithio ar adolygiad manwl o'r holl adnoddau ar Hwb sy'n ymwneud ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Rydym yn awyddus i roi sicrwydd i ysgolion a lleoliadau bod yr holl ddeunyddiau yn yr adran ar adnoddau'r Cwricwlwm i Gymru ar Hwb yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

### **Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

- 2.32 Mae gwaith ar gynllunio, dysgu ac addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o dan y Cwricwlwm i Gymru yn mynd rhagddo'n dda ym mhob ysgol, ac mae pob un o'r 22 o awdurdodau lleol wedi datblygu Maes Llafur cytunedig newydd sy'n gyson â'r Cwricwlwm i Gymru.
- 2.33 Er mwyn cefnogi ysgolion o natur grefyddol ymhellach, gwnaethom roi cyllid i Wasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru i baratoi deunyddiau ategol ar y cwricwlwm ar gyfer eu hysgolion, gan gysylltu addysg grefyddol enwadol a'r Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r ffordd y gall dysgu ac addysgu drwy'r Cwricwlwm i Gymru adlewyrchu anghenion eu dysgwyr a'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. Er mwyn helpu ysgolion gydag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr o CCYSAGauC ac ymarferwyr i ddatblygu adnoddau dysgu proffesiynol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru sy'n gysylltiedig â'r newidiadau yn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Bydd 11/12 o fodiwlau i gyd.

### **Y Gymraeg**

- 2.34 Cyhoeddwyd fframwaith y Gymraeg i roi rhagor o gymorth i Ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg ym mis Hydref 2022. Mae'n nodi'r gofynion statudol ar gyfer y Gymraeg, yn ogystal â nodi'r profiadau, y wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau sydd ymhlwg yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae hefyd yn cyfeirio at wybodaeth a chymorth pellach.
- 2.35 Mae consortia rhanbarthol a phartneriaethau ledled Cymru yn helpu ysgolion gyda'u darpariaeth iaith Gymraeg o dan y Cwricwlwm i Gymru ac yn cydweithio i ddatblygu rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu deunyddiau. Mae gwaith ehangach sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth y sector o'r Gymraeg fel rhan o ofynion y cwricwlwm yn cynnwys gwaith [y Rhwydwaith Cenedlaethol](#) a chyhoeddwyd adnodd i helpu arweinwyr i werthuso eu cynnydd wrth ddatblygu'r Gymraeg yn eu hysgol yn ddiweddar.
- 2.36 Bydd Estyn yn cynnal adolygiad thematig o Ddatblygu Sgiliau Darllen Cymraeg Disgyblion a fydd yn llywio cymorth yn y dyfodol, ochr yn ochr â chanfyddiadau arweinwyr ysgolion a dysgwyr sy'n deillio o'r ail gam o'r gwaith ymchwil ar weithrediad cynnar sy'n mynd rhagddo yn ystod y tymor hwn.

### **Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith**

- 2.37 Thema drawsbynciol i ddysgwyr 3 i 16 oed o dan y Cwricwlwm i Gymru yw Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith. Wrth gynllunio eu cwricwlwm, mae'n rhaid i ysgolion sicrhau bod Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith yn cael ei hystyried ym mhob agwedd ar ddysg ac o fewn pob un o chwe Maes y cwricwlwm. Dylai dysgwyr gael profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith a gyrfaoedd, a meithrin gwybodaeth am hyd a lled y cyfleoedd sydd ar gael iddynt ar hyd eu bywydau.
- 2.38 Mae Gyrfa Cymru yn hwyluso nifer o weithgareddau i gyflogwyr a digwyddiadau gwybodaeth i ddysgwyr. Mae'n dwyn ynghyd ysgolion a chyflogwyr gyda'r nod o roi gwybodaeth i bobl ifanc am eu cyfleoedd gyrfa, eu hysbrydoli a rhoi cymhelliant iddynt. Gyda'i gilydd mae'n eu helpu i ddeall sut mae dewisiadau pwnc yn effeithio ar opsiynau gyrfa yn y dyfodol, byd gwaith sy'n newid o hyd, opsiynau ar gyfer gyrfaoedd a sut i gymryd eu camau nesaf ac opsiynau yn y dyfodol. Cronfa ddata a hwylusir gan Gyrfa Cymru yw'r Gyfnewidfa Addysg Busnes. Mae'n rhestru cyflogwyr a chyn-fyfyrrwyr o wahanol sectorau sydd â diddordeb mewn gweithio gydag ysgolion i ddatblygu rhaglenni cyffrous sy'n ychwanegu at y cwricwlwm i ddysgwyr ac sy'n tynnu sylw at y gwahanol ffyrdd y gall cyflogwyr a chyn-fyfyrrwyr weithio gydag ysgolion a dysgwyr i arddangos byd gwaith.
- 2.39 Mae Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith yn un o'r themâu sy'n cael ystyriaeth benodol yn ystod ail gam y gwaith ymchwil ar weithrediad cynnar sy'n mynd rhagddo y tymor hwn. Disgwylir i'r adroddiad sy'n deillio o hynny, a fydd yn rhoi rhagor o wybodaeth am ei weithredu, gael ei gyhoeddi ym mis Medi.

### **3. Rheoli'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm**

- 3.1 Yn ogystal â'r trefniadau cymorth mwy penodol a nodwyd yn yr adran flaenorol, mae diwygiadau yn cynnwys nifer o ddulliau gweithredu sydd â'r nod o helpu'r broses barhaus o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Caiff gwybodaeth bellach ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol nesaf ym mis Gorffennaf.

## Dysgu Proffesiynol

- 3.2 Ar gyfer lleoliadau, rydym yn helpu awdurdodau lleol a staff lleoliadau i wneud trefniadau effeithiol i weithredu'r cwricwlwm drwy [fodiwlau dysgu proffesiynol i gefnogi dysgu'r cyfnod sylfaen mewn ysgolion a lleoliadau](#).
- 3.3 Ar gyfer ysgolion, mae datblygu proffesiwn addysg o ansawdd da drwy ddysgu proffesiynol yn dal yn ganolog i'r broses o wireddu ein gweledigaeth ar gyfer addysg. Mae'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, a lanswyd ym mis Medi 2022, yn allweddol i sicrhau bod darpariaeth dysgu proffesiynol o ansawdd ar gael i bob ymarferydd er mwyn sicrhau safonau uchel a dyheadau i bawb.
- 3.4 Yn sgil buddsoddi bron 336 miliwn yn y gwaith o gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol i ymarferwyr addysg yn ystod 2023-24 yn unig, mae'r dysgu proffesiynol cenedlaethol a gynigir yn eang ac yn amrywiol. Mae hyn yn cynnwys dyrannu £12 miliwn yn uniongyrchol i ysgolion, sy'n adeiladu ar y swm o £55 miliwn yn y grant dysgu proffesiynol a ddyfarnwyd dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r cyllid hwn yn rhoi amser a lle i ymarferwyr ac arweinwyr weithio gyda'i gilydd ar draws ysgolion a rhwydweithiau i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru. Yn unol â'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, prif ddiben y cyllid hwn yw galluogi pob ymarferydd i ddatblygu eu sgiliau a'u hymarfer i gyflwyno dysgu ac addysgu o ansawdd uchel.
- 3.5 Mae gweddill cyllid dysgu proffesiynol yn ystod 2023-24 yn cynnwys cyflwyno Rhaglen Ddatblygu genedlaethol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, drwy gonsortia a phartneriaethau addysg. Mae ysgolion sydd eisoes yn weithredu'r Cwricwlwm i Gymru hefyd yn cael gafael ar gymorth rhanbarthol mwy pwrpasol er mwyn hwyluso'r gwaith o i wireddu'r cwricwlwm.
- 3.6 Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda nifer o bartneriaid ac arbenigwyr eraill i ddatblygu adnoddau dysgu proffesiynol i roi cymorth pellach i ymarferwyr er mwyn iddynt wireddu gofynion y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r partneriaid presennol yn cynnwys Rhwydwaith BAME Ed (Cymru) ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd sy'n datblygu ac yn cyflwyno Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar y cyd â nifer o randdeiliaid eraill i gefnogi ymarferwyr addysg yn y meysydd canlynol:
- Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
  - CCUHP/Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau
  - Llythrennedd a llafaredd
  - Dinasyddiaeth a dysgu gwleidyddol
  - Cynllun peilot hyfforddi ar aflonyddu rhywiol ar-lein rhwng cymheiriaid.



- 3.7 Mae'r gyfres o adnoddau newydd yn cael ei rhyddhau fesul cam. Mae'r adnoddau yn amrywio o 'godi ymwybyddiaeth' i 'anelu at ragoriaeth' i gymorth pellach i gefnogi dysgu ac addysgu o ansawdd uchel gan ymarferwyr.
- 3.8 Er mwyn helpu i gyflwyno a gweithredu'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol a blaenoriaethau cenedlaethol eraill, rydym wedi gosod Rheoliadau gerbron yn ddiweddar, er mwyn parhau â'r diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn am y tair blwyddyn academaidd nesaf. Caiff y diwrnod HMS ychwanegol ei neilltuo ar gyfer dysgu proffesiynol ar y Cwricwlwm i Gymru, cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ac ymgorffori tegwch, llesiant a'r Gymraeg ym mhob rhan o gymuned gyfan yr ysgol.
- 3.9 Gwyddom ei bod yn cymryd amser i ddysgu proffesiynol gael effaith ar ddysgu ac addysgu yn yr ystafell ddosbarth ac ar ddeilliannau dysgwyr. Wrth weithredu ar gymhelliad Archwilio Cymru, rydym yn gweithio gyda chonsortia a phartneriaethau addysg ar ddull y cytunwyd arno o fesur effaith dysgu proffesiynol yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Hefyd, fel yr amlinellwyd yn yr Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, rydym yn datblygu dull cenedlaethol o gydnabod dysgu proffesiynol o ansawdd uchel, a chaiff rhagor o fanylion eu cyhoeddi am hyn erbyn diwedd tymor yr haf.

## Cyllid

- 3.10 Yn unol ag argymhellion Archwilio Cymru ac ymrwymadau Gweinidogol a wnaed yn ystod y Senedd ddiwethaf, rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am gyllid y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i wireddu'r cwricwlwm mewn adroddiadau blynyddol, a bydd yr un nesaf ar gael ym mis Gorffennaf 2023. Bydd hyn yn cynnwys amcanestyniadau dros dair blynedd wedi'u diwygio, yn ogystal â nodi sefyllfaoedd alldro blynyddoedd ariannol blaenorol. Mae ein dull o baratoi o adroddiadau ariannol wedi'i gynllunio i osgoi unrhyw faich ychwanegol ar yr ysgolion.
- 3.11 Ochr yn ochr â chyllid 2023-24 ar gyfer dysgu proffesiynol a nodir uchod, mae ein cynlluniau cyllidebol ar gyfer y flwyddyn o'n blaenau i weithredu'r cwricwlwm yn parhau'n gyson yn fras â darpariaeth 2022-23. Mae hyn yn cynnwys cyllid i ysgolion.
- 3.12 Fel y nodwyd yn yr [Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#) ar gyfer Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, disgwylir i gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol leihau o flwyddyn i flwyddyn wrth i'r cwricwlwm gael ei gyflwyno. Fodd bynnag, bydd angen ystyried yr amcangyfrifon hyn cyn y pandemig yng ngoleuni profiadau. Felly, byddwn yn edrych yn fanwl ar gyllid i ysgolion ar gyfer diwygiadau'r cwricwlwm fel rhan o'r cylch cyllidebu nesaf ac yng ngoleuni sefyllfa ehangach cyllid i ysgolion.

## Gwella ysgolion

- 3.13 Rydym wedi nodi'n glir bod angen inni sicrhau bod pob agwedd ar y system addysg yn gyson â gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru ac yn cefnogi hynny'n llawn. Ym mis Mehefin 2022, gwnaethom gyhoeddi [canllawiau gwella ysgolion](#) i gyflwyno ffordd newydd i'r system addysg weithio gyda'i gilydd i helpu ysgolion i

wella, ennyn hyder yn y system a chadw ffocws clir ar gefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd ar bob cam yn eu haddysg. Nododd y canllawiau hyn ar wella ysgolion wyth ffactor a oedd yn cyfrannu at gefnogi'r broses o wireddu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn ysgolion: mae'r rhain yn rhoi fframwaith polisi cyson i bob ysgol a gwasanaethau gwella ysgolion er mwyn sicrhau bod dysgwyr a dysgu yn aros wrth wraidd ein diwygiadau addysg.

- 3.14 Mae gan Estyn rôl allweddol i'w chwarae i gefnogi'r weledigaeth hon. Mae dull arolygu newydd Estyn yn cynnwys newid o ddyfarniadau crynodol mewn adroddiadau arolygu i roi mwy o ffocws ar gryfderau a meysydd i'w gwella. Ceir hefyd fwy o hyblygrwydd yn y fframwaith i ystyried cyd-destun pob ysgol neu leoliad. Mae deialog broffesiynol wrth wraidd y broses arolygu.
- 3.15 Yn ei hadroddiad blynyddol nododd estyn bod consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol nad ydynt mewn consortiwm "*developed suitable approaches to support schools to develop their curriculum*" a'u bod yn dechrau datblygu dulliau gweithredu cadarnach o gefnogi cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae Estyn hefyd wedi nodi, yn rhy aml, nad oedd y cymorth hwn yn ddigon pwrpasol i ddiwallu anghenion ac nad oedd darpariaeth yn cael ei gwerthuso'n ddigon effeithiol. Ceir rhyw arwydd hefyd bod 'gweithredu hyd at ond heb gynnwys streic' mewn rhai ysgolion wedi golygu nad ydynt wedi cael gafael ar yr un lefel o gymorth gan wasanaethau gwella ysgolion nag y'i disgwyliid fel arall.
- 3.16 Cydnabu uwch-arweinwyr mewn ymchwil ar weithrediad cynnar bod gwasanaethau gwella ysgolion yn cynnig amrywiaeth o gymorth i ysgolion (e.e. cyfarfodydd rhwydwaith rheolaidd i arweinwyr asesu a chynnydd; deunyddiau i helpu ysgolion i ddatblygu dulliau o fapio cynnydd a chyrhaeddiad; mynediad at siaradwyr arbenigol a chynghorwyr i gefnogi gwaith cynllunio'r cwricwlwm). Nododd uwch-arweinwyr fod ysgolion yn gwerthfawrogi'r cymorth a roddir drwy glystyrau a rhwydweithiau. A themlai rhai, wrth i gynlluniau'r cwricwlwm gael eu datblygu ymhellach a'u rhoi ar waith, fod angen mwy o her adeiladol allanol. Rydym ar ddeall bod rhai ysgolion cynradd o'r farn bod canllawiau a chymorth rhanbarthol ynglŷn â chynnydd yn dal i fod yn rhy haniaethol ac nad ydynt yn cefnogi cynlluniau ysgolion.
- 3.17 Yn ogystal â'r dysgu proffesiynol a nodir uchod, mae consortia a phartneriaethau yn cael y dasg o gyflwyno amrywiaeth o gymorth i ysgolion ar ddiwygiadau'r cwricwlwm. Mae'r dull gweithredu hwn yn gyson â'r camau datblygu a nodwyd yn yr adran '[Y Daith i Weithredu'r Cwricwlwm](#)' yn y canllawiau ar y Cwricwlwm i Gymru. Un o flaenoriaethau allweddol pob consortiwm a phartneriaeth yw helpu eraill i gydweithio ac mae hyn wedi'i nodi'n benodol yn nhelerau'r cyllid grant. Maent hefyd wedi cael y dasg benodol o helpu ysgolion i gymryd rhan yn sgysiau'r Rhwydwaith Cenedlaethol a phrosiect Camau i'r Dyfodol, yn ogystal â rhoi cymorth pwrpasol i'r ysgolion uwchradd hynny sy'n mabwysiadu y Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2023. Mae agweddau eraill ar eu blaenoriaethau ar gyfer 2023-24 yn cynnwys: helpu i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd o fewn clwstwr a rhyngddynt; helpu i ddatblygu a rhannu arferion asesu pwrpasol; a helpu pob ysgol i ddatblygu ei phroses hunanwerthuso yn unol â'r canllawiau gwella ysgolion – bydd hyn yn helpu i werthuso effaith blwyddyn weithredu gyntaf y Cwricwlwm i Gymru.



## Cefnogi cynnydd ac asesu mewn ysgolion

- 3.18 Mae prosiect tair blynedd Camau i'r Dyfodol yn gweithio gydag ymarferwyr, uwch-arweinwyr a chynrychiolwyr o bob rhan o'r system addysg i feithrin y gallu i gynllunio cynnydd mewn cwricwla. Nodwyd canfyddiadau cam cyntaf y prosiect, a oedd yn mesur dealltwriaeth y system o gynnydd ac yn rhoi materion i ysgolion weithio drwyddynt, mewn adnodd a ddsbarthwyd yng nghynhadledd y penaethiaid ar 23 Mawrth. Caiff yr adroddiad llawn ar gam un ei gyhoeddi y tymor hwn. Mae'r ail gam bellach wedi dechrau ac mae'n canolbwyntio ar gyd-awduro adnoddau, enghreifftiau ymarferol, a deunyddiau ategol eraill ynglŷn â chynnydd.
- 3.19 Rydym yn parhau i gynnal sgysiau'r Rhwydwaith Cenedlaethol drwy ddwyn ymarferwyr ynghyd i rannu dulliau gweithredu ar gynnydd a llywio ein cymorth i ysgolion. Mae adnoddau ategol, fideos, a phecynnau o gwestiynau ar gael i ymarferwyr i'w helpu i drafod materion mewn gweithdy yn eu lleoliadau eu hunain.
- 3.20 Mae [Gweithdai Asesu ar gyfer y Dyfodol CAMAU](#): cyfres o weithdai a ddatblygwyd ar y cyd ag ymarferwyr i'w helpu i feithrin gallu ym maes arferion asesu ar gael i bob ysgol o hyd. Mae'r gweithdai yn helpu i ddatblygu dulliau asesu sy'n creu cynnydd mewn dysgu yn hytrach na phrofi dysgu cyfredol yn unig. Ac, ar ôl y gyfres o [ddeunyddiau ategol ar gyfer y cwricwlwm, asesu a gwerthuso cynnydd dysgwyr](#) (Mehefin 2022) rydym wedi parhau i ychwanegu'r adnoddau hyn y flwyddyn academaidd hon, drwy gyhoeddi nifer o astudiaethau achos ar ddulliau o gynllunio'r cwricwlwm, pontio, asesu a chynnydd. Byddwn yn cyhoeddi cymorth ymarferol arall sy'n deillio o Camau i'r Dyfodol yn yr hydref.

## Mabwysiadu'r cwricwlwm ym mis Medi 2023

- 3.21 Cafodd ysgolion uwchradd y dewis o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2023 ar gyfer blynyddoedd 7 ac 8 gyda'i gilydd. Mabwysiadodd 104 o ddarparwyr uwchradd i gyd o fis Medi 2022, bron hanner y rhai sy'n gymwys. Roedd y rhain yn cynnwys pedair uned cyfeirio disgyblion a 100 o ysgolion a gynhelir.
- 3.22 Ni welwyd unrhyw batrymau amlwg mewn perthynas â lleoliad ysgolion nac anfantais gymdeithasol, gyda'r dosbarthiad ledled Cymru yn unol â dwyster poblogaeth yn fras. Penderfynodd ysgolion yn Sir y Fflint, Ynys Môn a Wrecsam aros tan 2023. Rydym ar ddeall bod penaethiaid yn lleol yn awyddus i symud ymlaen gyda'i gilydd, a hefyd ddefnyddio'r amser a oedd ar gael ar gyfer gwaith ymgysylltu, treialu a gwerthuso.
- 3.23 Mae bron pob un ohonynt yn manteisio ar gymorth rhanbarthol / lleol pwrpasol. Mae canllawiau ar ddisgwyliadau'r cwricwlwm yn cefnogi gwaith cynllunio strategol. Mae'r rhan fwyaf yn adolygu eu gweledigaeth, eu gwerthoedd a'u hymddygiadau ac wedi ymgysylltu'n dda â'r staff i ddatblygu hyn drwy eu hysgol gyfan, gyda gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ehangach yn yr arfaeth. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgol yn dangos dealltwriaeth gadarn o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a'i ystyriaethau cynllunio ac wedi nodi nifer o gyfleoedd

dysgu proffesiynol i barhau i ddatblygu dealltwriaeth glir a chyffredin o addysgeg effeithiol, egwyddorion cynnydd ac asesu ffurfiol a chrynodol.

- 3.24 Mae ail gam yr ymchwil ar weithrediad cynnar sy'n mynd rhagddo y tymor hwn yn cynnwys trafodaethau ag uwch-arweinwyr o sawl ysgol uwchradd a ddewisodd beidio â mabwysiadu fframwaith y Cwricwlwm i Gymru fis Medi diwethaf. Nod y rhan hon o'r ymchwil yw deall eu cynnydd a'u hyder i weithredu'r cwricwlwm o fis Medi 2023, a deall sut mae'r ysgolion hyn wedi bod yn paratoi.

### **Pecynnau “parod” ac adnoddau**

- 3.25 Gwyddom fod rhai ysgolion yn defnyddio adnoddau allanol i gefnogi trefniadau asesu. Rydym hefyd yn ymwybodol bod eraill wedi rhoi'r gorau i'w defnyddio, gan gydnabod nad yw adnoddau cyffredinol o reidrwydd yn cyd-fynd â'r cynlluniau cynnydd na'r trefniadau asesu roeddent yn eu datblygu, ac nad oeddent yn ddigon pwrpasol i gefnogi gweledigaeth cwricwlwm yr ysgol. Fel y nodir uchod, mae helpu ysgolion i ddatblygu eu trefniadau asesu yn flaenoriaeth o hyd drwy'r system gyfan.
- 3.26 Ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mewn rhai achosion, mae adnoddau'n cael eu prynu a'u defnyddio mewn ysgolion lle mae'r ysgol am gael rhagor o sicrwydd ynglŷn â rhai elfennau o ran yr hyn y maent yn ei ddysgu, neu lle nad ydynt yn gwbl hyderus i gynllunio eu dulliau gweithredu eu hunain. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ond mewn ysgolion cynradd yn bennaf, yn hytrach nag ysgolion uwchradd) yn enghraifft o ble mae ysgolion yn dibynnu ar becynnau o wersi mewn rhai achosion. Fodd bynnag, wrth i'r adolygiad o adnoddau Hwb ddatblygu, rydym yn disgwyl i ysgolion fod mewn sefyllfa gryfach i fod yn hyderus mewn cyfres o adnoddau dwyieithog sydd ar gael am ddim i gefnogi eu dysgu a'u haddysgu.
- 3.27 Hefyd, mae ysgolion yn defnyddio adnoddau i olrhain cynnydd dysgwyr. Fodd bynnag, unwaith eto, ceir tystiolaeth bod ysgolion yn symud i ffwrdd oddi wrth y rhain wrth iddynt ddatblygu eu dulliau pwrpasol eu hunain, gan gynnwys defnyddio dyddiaduron dysgu neu bortffolios i ddangos tystiolaeth o gynnydd.

### **Cymwysterau newydd**

- 3.28 Ar 20 March cyhoeddais [ddatganiad ysgrifenedig](#) ar y cwricwlwm a chymwysterau i ddysgwyr 14-16 oed. Nododd ein datganiad ein gweledigaeth ar gyfer y dysgu a fydd yn fuddiol i ddysgwyr 14-16 oed o dan y Cwricwlwm i Gymru, a rôl bwysig cymwysterau o fewn hynny. Rydym am i arlwy cwricwlwm ysgolion sicrhau bod dysgwyr yn gadael addysg orfodol yn meddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau sydd eu hangen arnynt i lwyddo ar eu llwybrau unigol, wrth iddynt wneud cynnydd tuag at y pedwar diben; ac i'w cyflawniadau a'u cynnydd gael eu cydnabod.
- 3.29 Drwy raglen Cymwys ar gyfer y Dyfodol, mae Cymwysterau Cymru yn parhau i ddatblygu cymwysterau newydd sy'n cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau TGAU penodol i Gymru a chymwysterau eraill, yn amrywio o lefel mynediad i lefel 2 mewn amrywiaeth eang o bynciau, sy'n rhan o arlwy llawn y cymwysterau i ddysgwyr 14-16 oed. Eu nod yw creu dewislen

gynhwysol o gymwysterau dwyieithog i ysgolion a dysgwyr ddewis o'u plith sy'n manteisio i'r eithaf ar dechnegol ddigidol ac sydd hefyd yn ennyn hyder y cyhoedd yng Nghymru, y DU ac yn fyd-eang. Bydd cymwysterau diwygiedig yn parhau i chwarae rôl hollbwysig i helpu dysgwyr i wneud cynnydd tuag at eu camau nesaf mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, yn seiliedig ar eu llwybrau a'u dyheadau unigol.

3.30 Mae Cymwysterau Cymru bellach yn mireinio cynigion ac yn llunio'r meini prawf cymeradwyo terfynol i'w trosglwyddo i CBAC ym mis Mehefin. Yna, bydd CBAC yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu a dylunio'r cymwysterau newydd. Mae'r rhaglen ar y trywydd cywir o hyd i bynciau diwygiedig presennol ddechrau cael eu haddysgu'n gyntaf ym mis Medi 2025 gyda dyfarniadau cyntaf yn ystod haf 2027.

3.31 Yn unol ag argymhelliad Archwilio Cymru, bydd CBAC yn chwarae rôl bwysig i helpu i baratoi a chefnogi ysgolion yn ystod 2024 a 2025. Mae'r gwaith cynllunio ar ddatblygu a chyflwyno adnoddau dwyieithog a dysgu proffesiynol dwyieithog i helpu athrawon addysgu'r cymwysterau newydd eisoes yn mynd rhagddo.

#### **Diweddariadau ar ganllawiau fframwaith y Cwricwlwm i Gymru**

3.32 Yn unol â'n hymateb i argymhelliad Archwilio Cymru, nodwyd yn ein hadroddiad blynyddol ar y cwricwlwm yn 2022 sut y byddem yn adolygu canllawiau fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn flynyddol a'u diweddarau. Byddwn hefyd yn defnyddio cylch adrodd 2023 ym mis Gorffennaf i dynnu'r materion allweddol o'r broses adolygu, a rhoi rhybudd ymlaen llawn i randdeiliaid ynglŷn â materion sy'n cael eu hystyried, cyn i'r canllawiau gael eu diweddarau ym mis Ionawr.

## **4. Gwerthuso a monitro**

4.1 Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth [Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru](#) a gyflwynodd ganfyddiadau astudiaeth gwmpasu a oedd yn ymwneud â gwerthuso'r diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu. Nododd gwestiynau allweddol i'w hateb wrth asesu sut mae'r diwygiadau yn gweithio ac i ystyried i ba raddau y maent yn cael yr effaith a ddymunir i bob dysgwr. Asesodd ddefnyddioldeb y ffynonellau data presennol i ateb y cwestiynau hyn a chynigiodd y dylid cynnal astudiaethau ychwanegol i lenwi'r bylchau yn y data presennol.

4.2 Gwnaethom ystyried yr astudiaethau a argymhellwyd yn erbyn yr adnoddau sydd ar gael a byddwn yn cyhoeddi cynllun gwerthuso yn ystod yr haf a fydd yn nodi ein rhaglen arfaethedig o ymchwil a gweithgarwch gwerthuso. Bydd diweddariad ar hyn hefyd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol nesaf ar weithredu'r cwricwlwm ar 3 Gorffennaf er cyflawnder.

4.3 Ochr yn ochr â hyn, mae dwy astudiaeth allweddol yn cael eu datblygu yn y rhaglen werthuso, sef y *rhaglen fonitro genedlaethol a seilir ar samplau a'r gwerthusiad ffurfiannol*.

## Rhaglen fonitro genedlaethol yn seiliedig ar samplau

- 4.4 Yn unol â [Dyfodol Llwyddiannus](#), ac fel y'i cadarnhawyd yn ein [Datblygiad Ysgrifenedig](#) ar 19 Ionawr, rydym wedi dechrau ar raglen uchelgeisiol o fonitro cyflawniad dysgwyr yn genedlaethol. Mae hyn yn golygu rhaglen dreigl o asesiadau o samplau o ddysgwyr ledled Cymru er mwyn creu darlun o gyrhaeddiad a chynnydd dysgwyr dros amser.
- 4.5 Yn bwysig ddigon, drwy ddefnyddio sampl genedlaethol o ddysgwyr ledled Cymru, rydym yn lleihau'r baich ar ysgolion a'r system addysg i'r eithaf, a hefyd yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i ddeall sut mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cefnogi dysgwyr a chodi safonau, a'n cynnydd wrth fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad dysgwyr.
- 4.6 Nid oes a wnelo hyn â phrofi pob dysgwr ond deall y darlun cenedlaethol o gyrhaeddiad a chynnydd dysgwyr dros amser. Mae angen hyn er mwyn cefnogi gwelliant cenedlaethol mewn addysg mewn ffordd sy'n gyson â'r Cwricwlwm i Gymru ac sy'n cadw ymreolaeth a galluedd ysgolion wrth iddynt gynllunio eu cwricwlwm. Ni fydd yn gysylltiedig â mesurau perfformiad ysgolion.
- 4.7 Mae gwaith datblygu ar gyfer y rhaglen hon yn mynd rhagddo, ac rydym yn disgwyl dechrau cyflwyno'r asesiadau hyn ar sail beilot yn y flwyddyn academaidd 2025/26.

## Gwerthusiad ffurfiol ac archwiliadau dwfn

- 4.8 Rydym yn bwriadu comisiynu gwerthusiad ffurfiannol llawn amlflwydd a fyddai'n dechrau yn ystod hydref 2023. Byddai hyn yn cynnwys ymchwil ar y cyd ag ymarferwyr, dysgwyr a'u teuluoedd, er mwyn deall profiadau grwpiau rhanddeiliaid allweddol o'r diwygiadau.
- 4.9 Byddai'r dull gweithredu hwn yn anelu at sicrhau samplau o faint digonol er mwyn ein galluogi i ymchwilio i brofiadau grwpiau gwahanol o ddysgwyr, fel y gallwn asesu i ba raddau y mae'r diwygiadau yn gweithio i bob dysgwr, ni waeth beth fo'i gefndir na'i allu. Rydym yn ceisio sicrhau bod gweithgarwch ymchwil a gwerthuso sy'n ymwneud â'r diwygiadau i'r cwricwlwm ac ADY yn gyson ac yn integredig lle y bo'n briodol er mwyn rhoi darlun cyfannol, lleihau'r baich ar y rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.
- 4.10 Rydym hefyd yn bwriadu ymgorffori archwiliadau dwfn mewn nifer o agweddau ar y cwricwlwm er mwyn ein helpu i gael dealltwriaeth fanylach o feysydd penodol, yn ogystal â hyd a lled y diwygiadau. Mae'r rhain yn debygol o newid rhwng camau'r gwaith ymchwil er mwyn sicrhau y cwmmpesir cynifer o bynciau â phosibl.
- 4.11 Rydym yn ystyried sut y gall data o'r gwerthusiad ffurfiannol, yn benodol ymchwil ar y cyd ag ysgolion, gael eu cysylltu â'r data monitro cenedlaethol a seilir ar samplau ar ffurf wedi'i hanonymaidd fel y gellir deall deilliannau cyrhaeddiad yn erbyn cefndir cyd-destunau ac arferion gwahanol mewn ysgolion.

## Ymchwil ar weithrediad cynnar

- 4.12 Fel y nodir ar ddechrau'r papur hwn, rydym yn gwneud gwaith ymchwil cychwynol ar gamau cynnar y broses o weithredu'r cwricwlwm ar ddau gam yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23. Mae adroddiad y cam cyntaf (27 Ebrill) yn cyflwyno canfyddiadau 64 o gyfweiliadau ag uwch-arweinwyr mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Ionawr 2023. Mae'n dilyn ein hadroddiad ymchwil blaenorol, *Ymchwil ansoddol ag ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer diwygiadau cwricwlwm ac asesu* (Ionawr 2022).
- 4.13 Diben y cyfweiliadau oedd ystyried barn uwch-arweinwyr a phrofiadau cynnar o'r broses o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn eu hysgolion a'r heriau a oedd yn eu hwynebu. Mae pob un o'r 64 o ysgolion wedi bod yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru ers mis Medi 2022. Roedd y cyfweiliadau yn canolbwyntio ar gynnydd cyffredinol tuag at weithredu'r cwricwlwm; leithoedd rhyngwladol, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb; cynnydd dysgwyr; asesu; tegwch a chynwysoldeb; ac ymgysylltu â rhieni (sy'n adlewyrchu argymhellion Archwilio Cymru yn ei hadroddiad yn 2022).
- 4.14 Mae gwaith maes eisoes yn mynd rhagddo ar gyfer yr ail gam ac rydym yn disgwyl cyhoeddi ei ganfyddiadau ym mis Medi. Mae hyn yn cynnwys cyfweiliadau dilynol ag uwch-arweinwyr er mwyn deall y cynnydd presennol, yn ogystal â ffocws ar hanes Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol; y Gymraeg ac Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith. Mae cam dau hefyd yn cynnwys grwpiau ffocws gyda dysgwyr blwyddyn 4 i 7 er mwyn cofnodi eu safbwyntiau a'u profiadau o flwyddyn gyntaf y Cwricwlwm i Gymru.

### **Ffynonellau data eraill**

- 4.15 Byddwn yn defnyddio ffynonellau data eraill yn ein gwerthusiad o'r Cwricwlwm i Gymru lle maent yn cyfrannu at ddeall effeithiolrwydd a chanlyniadau'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm. Mae'r mathau o ffynonellau data yn cynnwys setiau data gweinyddol y llywodraeth, data ar gyfranogiad a chyrhaeddiad cenedlaethol, data o arolygon addysg, (e.e. [Astudiaeth Aml-garfan Addysg WISERD; Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion \(SHRN\)](#)), tystiolaeth o arolygiadau Estyn ac astudiaethau ymchwil a gwerthuso ad hoc. Caiff y ffynonellau data hyn eu rheoli gan amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid addysg eraill.

### **Ecosystem wybodaeth ysgolion**

- 4.16 Rydym am weld dull symlach a chydlynol o ymdrin â gwybodaeth drwy ein system addysg gyfan: un sy'n rhoi lle canolog i ddysgu a dysgwyr ac sy'n lleihau'r beichiau ar ein hymarferwyr. Mae'r [adroddiad ymchwil](#) ar ddatblygu ecosystem data a gwybodaeth newydd yn cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion ynglŷn ag anghenion data a gwybodaeth y system ysgolion yng Nghymru a datblygu ecosystem data a gwybodaeth newydd a fydd yn sail i'r diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu. Mae'r adroddiad yn amlinellu argymhellion ynglŷn â dulliau o ddefnyddio data a gwybodaeth, mewn ffordd a fydd yn galluogi partneriaid ym mhob rhan o'r system i weithio gyda'i gilydd i gefnogi ein holl ddysgwyr, ni waeth beth fo'u cefndir, er mwyn iddynt gyflawni eu potensial.

4.17 Yn dilyn y [datganiad ysgrifenedig](#) gan y Gweinidog am wella ysgolion a gwybodaeth ar 19 Ionawr, rydym bellach yn siarad ag ysgolion i ddatblygu syniadau ynglŷn ag ecosystem wybodaeth newydd i Gymru. Er y byddwn yn parhau i fod yn ystyriol o argymhelliad Archwilio Cymru yn ei hadroddiad yn 2022, y tymor hwn, rydym yn cynull grŵp o ymarferwyr er mwyn datblygu cynigion manylach, wrth inni symud tuag at ecosystem wybodaeth ddiwygiedig sy'n defnyddio data ar gymwysterau fel rhan o dirwedd wybodaeth lawer ehangach. Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, byddwn yn:

- ystyried sut y gellir cymhwyso'r argymhellion at ecosystem data a gwybodaeth sy'n cefnogi uchelgeisiau'r Cwricwlwm i Gymru ac sy'n sail i nodau pob polisi addysg ysgol, a chydbwyso anghenion amrywiol rhanddeiliaid gwahanol ar yr un pryd.
- defnyddio'r adroddiad i gynllunio ecosystem wybodaeth sy'n seiliedig ar egwyddorion cadarn, a all ddatblygu'n barhaus wrth i'r diwygiadau ymwreiddio yn y system ysgolion ac wrth i bolisi addysg barhau i ddatblygu.
- defnyddio'r argymhellion i wella sut y gallwn roi data yn eu cyd-destun er mwyn:
  - i) helpu i'w dehongli, a
  - ii) dadansoddi effaith tlodi a rhwystrau eraill a wynebir gan ddysgwyr yn well a chefnogi effeithiolrwydd i bobl ifanc o dan anfantais.
- parhau i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ar fanylion argymhellion yr adroddiad ac ymgymryd â'r rhaglen waith briodol
- ystyried yn llawn yr argymhellion wrth ddatblygu ein dull diwygiedig o ddefnyddio gwybodaeth i helpu i wella ysgolion, ac, mewn partneriaeth ag ysgolion, symud tuag at system fwy cyfannol sy'n hyrwyddo dysgu ac yn rhoi dysgwyr, ymarferwyr, rhieni a gofalwyr wrth wraidd popeth.



# Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## 10 Mai 2023

### Rhoi'r System Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar Waith

#### 1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae sicrhau rhagoriaeth, tegwch a llesiant i bob plentyn a pherson ifanc yn un o ddibenion craidd diwygiadau addysg yng Nghymru. Ar hanner ffordd drwy'r ail flwyddyn weithredu, mae amrywiaeth o dystiolaeth a gweithgareddau monitro yn mynd rhagddynt i ddeall y cynnydd sy'n cael ei wneud i roi'r system ADY ar waith (y Ddeddf ADY a'r Cod ADY a'r rheoliadau cysylltiedig) ar anghenion dysgwyr a'u teuluoedd.
- 1.2. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid ac yn comisiynu nifer o ffynonellau o dystiolaeth i fonitro'r ffordd y rhoddir y system ADY ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys Grŵp Llywio Cenedlaethol Diwygio ADY, Estyn yn ei rôl fel arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol ADY Dros Dro, Arweinydd Gweithredu ADY ÔI-16, Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol Cymru, SNAP Cymru a'r Bwrdd Recriwtio a Chadw Athrawon. Mae'n ychwanegol at yr hyn sy'n deillio o'r [adroddiad ar "ymchwil ar weithrediad cynnar"](#) a gyhoeddwyd ar 27 Ebrill. Mae'r papur hwn yn cyfeirio at ymgysylltu, adborth a thystiolaeth gan y rhanddeiliaid hyn.
- 1.3. Rydym wedi comisiynu Arad Research i gynnal gwerthusiad ffurfiannol o'r system ADY. Dechreuodd y contract ymchwil am bedair blynedd ym mis Ionawr 2023 a bydd yn asesu'r ffordd y rhoddir y system ADY ar waith a'r ffordd y cyflawnir amcanion polisi. Bydd yr ymchwil hefyd yn ystyried goblygiadau rhoi'r diwygiadau ar waith o ran costau ac yn nodi unrhyw effeithiau sy'n dod i'r golwg. Bydd y broses iterus hon yn cynnig cerrig milltir adolygu allweddol a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid allweddol i ymateb yn briodol i'r dystiolaeth sy'n dod i'r golwg mewn perthynas â rhoi'r system ADY ar waith.

#### 2. Cynnydd ar roi'r system ADY ar waith

##### Trosolwg

- 2.1. Mae [Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb](#) yn amlinellu ein map ffordd i ailosod ein gweledigaeth ar gyfer system addysg gynhwysol. Dileu rhwystrau fel y gall pob dysgwr, o bob oedran, yn yr ystafell ddosbarth, ar-lein ac

yn y gwaith, sicrhau cyfleoedd a deilliannau addysg rhagorol – drwy nodi cynnar, cymorth a champau gweithredu wedi'u targedu.

- 2.2. Nod y Cwricwlwm i Gymru a'r Ddeddf ADY, gyda'i gilydd, yw trawsnewid y disgwyliadau, y profiadau dysgu a'r deilliannau i blant a phobl ifanc. Mae'r naill a'r llall yn pwysleisio system addysg gynhwysol sy'n cydbwyso tegwch mynediad i'r cwricwlwm i bob dysgwr a diwallu anghenion dysgwyr unigol. Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i gynllunio i godi dyheadau pob dysgwr, a bydd darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) yn cael ei chynllunio a'i nodi mewn Cynllun Datblygu Unigol (CDU) i gefnogi dysgwyr na ellir diwallu eu hanghenion heb gymorth ychwanegol.
- 2.3. Dechreuwyd rhoi Deddf 2018 ar waith ar 1 Medi 2021 gyda'r system ADY yn cael ei chyflwyno'n raddol dros gyfnod o bedair blynedd hyd at fis Awst 2025. Mae plant yn symud i'r system ADY mewn grwpiau dros y pedair blynedd.
- 2.4. Mae'r sector addysg wedi gwneud cryn gynnydd i baratoi ar gyfer y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a'i rhoi ar waith ochr yn ochr â chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.
- 2.5. Canfu adroddiad blynyddol cryno Estyn ar gyfer 2021-22 fod darparwyr, yn gyffredinol, wedi parhau i wneud cynnydd cyson tuag at roi'r diwygiadau i anghenion dysgu ychwanegol ar waith ac wedi croesawu llawer o'r agweddau ar y newidiadau i'r dull gweithredu. Nodir cynnydd cadarnhaol, o ran ymgorffori arferion cynhwysol i'r ysgol gyfan, cynllunio i ddiwallu anghenion pob dysgwr, a gwella lefelau cyfranogi ac ymgysylltu â phlant a'u teuluoedd. Yn bwysig ddigon, mae arwyddion cynnar bod newid systemataidd o ran arferion sy'n diwallu anghenion dysgwyr drwy addysgu gwahaniaethol fel mater o drefn.

### **Symud plant ag ADY sy'n galw am DDdY o dan y Ddeddf ADY**

- 2.6. Ar 20 Mawrth 2023, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg estyniad i'r broses o roi'r Ddeddf ADY ar waith o dair blynedd i bedair blynedd, er mwyn ymateb i bwysau llwyth gwaith, creu mwy o hyblygrwydd, a diogelu ansawdd ymarfer, cynlluniau, a darpariaeth sy'n diwallu anghenion dysgwyr. Roedd hyn mewn ymateb i adborth dros y chwe mis diwethaf gan Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynwyr ADY), awdurdodau lleol, penaethiaid, undebau a darparwyr yn y trydydd sector sydd wedi dweud wrthym fod angen mwy o amser i symud dysgwyr o AAA i ADY ac ymgorffori newid effeithiol.
- 2.7. Drwy ymestyn y broses hon, mae hyn yn golygu y bydd plant a oedd yn mynd i symud i'r system ADY rhwng mis Medi 2023 a mis Awst 2024, yn symud i'r system ADY rhwng mis Medi 2023 a mis Awst 2025 erbyn hyn. Nid effeithir ar hawl plant, a'u rhieni, i ofyn am i blentyn symud i'r system ADY – sy'n golygu y gall plant sydd am symud i'r system ADY ofyn am gael gwneud hynny o hyd.



- 2.8. Mae'r Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol yn nodi bod addasiadau helaeth wedi cael eu gwneud gan bob ALI i ddarparu ar gyfer y ffordd newydd o weithio. Mae bron pob un ohonynt wedi gwneud defnydd da o gyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru er mwyn ehangu'r gweithlu cyn y gofynion cynyddol a ragwelir o ganlyniad i gyflwyno'r ffordd newydd o weithio, yr agweddau gweinyddol cynyddol sy'n gysylltiedig â sefydlu prosesau a systemau newydd, a hefyd y gwaith o gynnal y system ADY a'r system AAA ar yr un pryd. Fodd bynnag, bu angen i'r rhan fwyaf o'r ALLau sicrhau cyllid craidd ychwanegol gan yr ystyrir bod y newidiadau sy'n angenrheidiol yn rhai hirdymor nad ydynt yn ymwneud â'r broses weithredu yn unig.
- 2.9. Mae bron pob AALI yn hyderus yn ei allu i reoli'r broses o symud y grwpiau blwyddyn gofynnol yn ystod blwyddyn 2, ond maent wedi nodi pryderon ynglŷn â rheoli gofynion y drydedd flwyddyn i adolygu'r CDUau a greir y flwyddyn hon a symud y garfan sy'n weddill o'r system AAA i'r system ADY.
- 2.10. Mae ALLau yn nodi bod y gwaith o gwblhau proses y CDU o fewn yr amserlen a ragnodwyd yn aml yn heriol ac mae llawer o'r ALLau yn nodi eu bod yn colli terfynau amser cwblhau. Mae pob ALI yn rhoi blaenoriaeth i ansawdd yn hytrach na chydymffurfio â therfynau amser ac maent yn rhoi sylw priodol i greu cynlluniau ystyrion sydd wir yn canolbwyntio ar yr unigolyn lle mae dysgwyr a'u rhieni yn cael cyfle i fynegi eu barn ar bob agwedd ar y broses gwneud penderfyniadau.

### **Diwygio'r cwricwlwm ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ochr yn ochr â'i gilydd**

- 2.11. Mae system addysg gynhwysol yn un lle mae ysgolion yn gwrando ar anghenion dysgwyr ac mae dysgwyr yn cael eu cefnogi i gyfranogi'n llawn mewn addysg a lle mae dull lleoliad cyfan yn cael ei fabwysiadu i ddiwallu anghenion pob dysgwr. Dylai cwricwlwm ysgol godi dyheadau pob dysgwr ac ymateb i anghenion unigolion, ac felly dylai gefnogi'r broses o adnabod, cynllunio a chynnydd i ddysgwyr ag ADY.
- 2.12. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnig hyblygrwydd i ysgolion ac athrawon gynllunio eu cwricwlwm eu hunain. Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o anghenion ac amgylchiadau eu holl ddysgwyr wrth gynllunio eu cwricwlwm eu hunain, gan ystyried cyfle cyfartal wrth roi cymorth ac ymyriadau ar waith neu wneud addasiadau rhesymol.
- 2.13. Mae CDU yn nodi darpariaeth sy'n cyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol go iawn sy'n cyfrannu mewn ffordd ystyrion at sefyllfa lle mae'r plentyn neu'r person ifanc yn cyflawni ei lawn botensial. Bydd dysgwyr ag ADY yn cael CDU pan fydd angen DDdY arnynt.

- 2.14. O ran cynnydd ac asesu, mae'r trefniadau newydd yn gofyn i ysgolion ddeall a yw grwpiau gwahanol o ddysgwyr yn gwneud y cynnydd a ddisgwylir, gan gynnwys y rhai ag ADY.
- 2.15. Y llynedd, canfu adroddiad blynyddol Estyn<sup>1</sup> fod bron pob darparwr, erbyn mis Gorffennaf 2022, wedi llwyddo i ddechrau'r broses o adnabod y dysgwyr hynny y mae angen ymyriad ADY arnynt a mapio anghenion darpariaeth gyffredinol i ddysgwyr eraill. Mae bron pob darparwr yn parhau i wneud cynnydd cyson o ran diwygio ei ddarpariaeth i fodloni gofynion y Cod ADY.
- 2.16. Mae'r ymchwil cynnar ar weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn nodi adborth gan uwch-arweinwyr ysgolion cynradd ar fanteision y Cwricwlwm i Gymru. Mae'n rhoi cyfle iddynt hyrwyddo cynwysoldeb i ddysgwyr ADY a dysgwyr sy'n agored i niwed a chanolbwyntio arno'n well nag y gwnaeth y cwricwlwm blaenorol, a hynny ar adeg pan fydd hyn yn hollbwysig. Maent yn gweld bod dysgwyr, a oedd yn aml yn mynd i'w cragen yn y gorffennol, yn gallu aros yn yr ystafell ddosbarth, a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu gyda chymorth yn yr ystafell ddosbarth.
- 2.17. At hynny, mae'r ymchwil ar weithredu'n gynnar yn awgrymu gwelliannau ehangach i ymarfer sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Roedd uwch-arweinwyr yn teimlo eu bod bellach yn canolbwyntio ar y dysgwr yn well wrth gynllunio'r cwricwlwm, gyda hyblygrwydd i deilwra cymorth yn ôl anghenion dysgwyr. Eu teimlad oedd bod mwy o ffocws ar weithgarwch llais y dysgwr, a oedd bellach yn cael ei ystyried yn fwy canolog i'r broses o gynllunio'r cwricwlwm, a dulliau mwy unigoleddig o fonitro cynnydd dysgwyr yn cefnogi addysg gynhwysol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Bydd y gwerthusiad o ADY yn ystyried yr ymchwil ar weithrediad cynnar yn fanylach.

## **Y Blynyddoedd Cynnar**

- 2.18. Mae'r cod yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol ddynodi Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar i fod yn gyfrifol am gydgyssylltu swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlant sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir. Maent yn chwarae rôl allweddol i hwyluso'r broses o nodi anghenion yn gynnar, gan sicrhau bod y ddarpariaeth gywir yn cael ei nodi'n gynt, a bod ADY yn cael eu hatal rhag datblygu neu waethygu.
- 2.19. Mae Estyn yn nodi bod rôl Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar wedi ei gwneud yn bosibl i bron bob awdurdod wneud cynnydd ar roi'r Ddeddf ADY ar waith. Mae tystiolaeth anecdotaidd gan Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yn fwy hyderus ynglŷn â'r system am fod eu safbwyntiau yn cael eu hystyried a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau, gan

---

<sup>1</sup> [Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Prif Arolygydd | Estyn \(llyw.cymru\)](#)

gynnwys drwy gyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae unrhyw rwystredigaethau wedi codi'n bennaf ynghylch camgyfleu gwybodaeth am y system ADY newydd, gyda'r rhan fwyaf o achosion yn cael eu datrys yn gyflym.

- 2.20. Mae awdurdodau lleol wedi nodi cynnydd yn nifer y dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth. Nodwyd hyn ym mhob grŵp oedran, ond mae wedi bod yn achos pryder penodol yn y blynyddoedd cynnar mewn perthynas â lleferydd, iaith a chyfathrebu, ac yn enwedig cyfathrebu cymdeithasol.
- 2.21. Mae [‘Siarad gyda fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, iaith a Chyfathrebu’](#) Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu cymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu ar lefelau cyffredinol, poblogaeth ac wedi'i dargedu. Drwy sicrhau ein bod yn nodi anghenion yn gynnar ac yn rhoi'r cymorth cywir, gallwn leihau'r galw am wasanaethau arbenigol a rhyddhau adnoddau i gefnogi dysgwyr ag anghenion mwy arbenigol, gan gynnwys ADY.
- 2.22. Amcan 4 o'r cynllun Siarad gyda Fi yw uwchsgilio'r gweithlu gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn diwallu anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu. Mae adnodd llwybr hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu Cymru gyfan i blant 0-5 oed wedi cael ei gyflwyno er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn. Gall lleoliadau ledled Cymru fanteisio ar nifer o opsiynau hyfforddiant ar leferydd, iaith a chyfathrebu ac rydym wrthi'n sicrhau bod y rhain ar gael yn Gymraeg. Mae gennym [tudalen benodol](#) Siarad gyda fi i ymarferwyr sy'n darparu amrywiaeth eang o adnoddau i helpu ymarferwyr i roi cymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- 2.23. Mae Cwlwm (Childcare Wales Learning and Working Mutually) yn parhau i helpu Llywodraeth Cymru i roi'r Ddeddf ADY ar waith a'i gwerthuso, gan sicrhau bod y sector yn cael adnoddau, gwybodaeth a chynghor cyfredol i'w alluogi i roi'r ddeddf ar waith yn effeithiol. Mae materion wedi cael eu codi mewn perthynas â'r angen am hyfforddiant priodol a pharhaus ar gyfer pob lleoliad, gan gynnwys gwarchodwyr plant. Mae rhai arferion da wedi cael eu nodi, gyda gwarchodwyr plant yn defnyddio proffiliau un dudalen i gefnogi'r plant y maent yn gofalu amdanynt, parhau i gynnwys eu teuluoedd a chefnogi'r broses o bontio i leoliadau eraill.

## **Rhoi ADY ar waith i ddysgwyr ôl-16**

- 2.24. Bydd y broses o roi ADY ar waith i ddysgwyr ôl-16 yn dechrau ym mis Medi 2023. Bydd pobl ifanc yn llifo drwodd i'r system ADY dros y ddwy flwyddyn academaidd nesaf. Bydd y rhai sydd ym Mlwyddyn 11 ar hyn o bryd yn symud i addysg a hyfforddiant ôl-16 gyda'u CDUau ar waith ym mis Medi eleni. Bydd unrhyw berson ifanc nad yw yn y system ADY eto erbyn diwedd y flwyddyn academaidd 2024-25 yn symud i'r system ADY ar yr adeg honno.
- 2.25. Mae'r Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol Ôl-16 yn nodi bod sefydliadau addysg bellach yn parhau i wneud cynnydd sylweddol i baratoi ar gyfer y Ddeddf ADY.

Mae penaethiaid a chyrrff llywodraethu, er eu bod wedi mynegi pryderon ynglŷn â gallu'r gweithlu, yn cydnabod yr effaith gadarnhaol y gall y Ddeddf ADY ei chael ac maent o blaid ei chyflwyno. Bu llawer mwy o ffocws yn y sector wrth i'r amser i roi ADY ar waith i ddysgwyr ôl-16 nesáu.

- 2.26. Mae gweithio mewn partneriaeth rhwng ALLau a sefydliadau addysg bellach yn parhau i fynd yn gryfach ledled Cymru, ond mae angen gwneud gwaith o hyd i ddatblygu gweledigaeth a rennir rhwng ALLau, sefydliadau addysg bellach a phartneriaid cyflawni ym maes iechyd er mwyn diwallu anghenion dysgwyr ôl-16 ag ADY yn y ffordd orau bosibl. Caiff hyn ei hwyluso drwy weithdai a grwpiau gorchwyl a gorffen â ffocws.
- 2.27. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £700k yn 2023-24 i sefydliadau addysg bellach a swm ychwanegol o £225k i ALLau er mwyn iddynt ddatblygu prosiectau cydweithio a phartneriaeth i baratoi ar gyfer y cyfnod pontio a gwella darpariaeth ddysgu ychwanegol yn lleol.
- 2.28. Er y gall sefydliadau addysg bellach ddiwallu anghenion y mwyafrif llethol o bobl ifanc ag ADY, mewn achosion prin, efallai y bydd angen i bobl ifanc sydd ag ADY cymhleth iawn fynychu sefydliadau ôl-16 arbennig annibynol i gael eu haddysg bellach a'u hyfforddiant. O dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth arbenigol a'i chyllido. O dan y Ddeddf ADY, caiff y cyfrifoldeb hwn ei drosglwyddo i ALLau.
- 2.29. Caiff y gyllideb ar gyfer lleoliadau mewn sefydliadau ôl-16 arbennig annibynol ei throsglwyddo i awdurdodau lleol yn 2025-26. Rydym yn ymgynghori â'r ALLau ar hyn o bryd ynglŷn â'r opsiynau ar gyfer trosglwyddo'r gyllideb. Mae trafodaethau cychwynnol yn cydnabod pa mor anodd yw'r penderfyniad y mae angen ei wneud ond mae ALLau yn croesawu'r arwydd cynnar a'r cyfeiriad strategol clir i gynyddu darpariaeth brif ffrwd leol i bobl ifanc ag ADY. Cydnabyddir hefyd y gwaith y mae llawer o ALLau eisoes yn ei wneud i sicrhau a datblygu'r ddarpariaeth honno yn lleol.
- 2.30. Mae trefniadau interim wedi cael eu rhoi ar waith ar gyfer 2023-25 a fydd yn galluogi ALLau i wneud penderfyniadau ar ddarpariaeth arbenigol i bobl ifanc a fydd yn symud i'r system ADY yn ystod y cyfnod hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn ad-dalu costau'r lleoliadau hyn drwy'r Grant Addysg i Awdurdodau Lleol.
- 2.31. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud penderfyniadau a chyllido lleoliadau i'r rhai sydd ym Mlwyddyn 12 ac uwch ar hyn o bryd tan 31 Awst 2025. Bydd unrhyw ymrwymïadau o ran cyllid gan Lywodraeth Cymru yn parhau i fod ar gael hyd nes bod y rhaglen astudio y cytunwyd arni wedi cael ei chwblhau.
- 2.32. Mae'r penderfyniad i sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i sicrhau cyfleusterau ar gyfer addysg bellach a

hyfforddiant a'u cyllido, a sicrhau cyfleusterau cyffredinol, priodol a rhesymol i ddysgwyr ag ADY.

### **Cyfranogiad plant a phobl ifanc**

- 2.33. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i safbwyntiau dysgwyr gael eu hystyried bob amser fel rhan o'r broses gynllunio, ynghyd â safbwyntiau eu rhieni/gofalwyr. Mae Estyn yn nodi consensws ymhlith ysgolion bod ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi arwain at welliant sylweddol, mawr ei angen yn y ffordd y cefnogir dysgwyr ag ADY a'u teuluoedd. Mae gan Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn ysgolion ddealltwriaeth dda o'r gofynion newydd ac maent yn gadarnhaol ynglŷn â'r newidiadau.
- 2.34. Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid i SNAP Cymru yn ddiweddar i gynnal cyfres o ddigwyddiadau am ddim i rieni a gofalwyr ar gyfer teuluoedd plant 0-25 oed ag ADY/Anabledau. Cymerodd bron 300 o bobl ran mewn 14 o sesiynau a gynhaliwyd mewn lleoliadau lleol ledled Cymru ac ar-lein.
- 2.35. Cynhaliwyd y sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb ledled Cymru a chynigiwyd cyfleoedd i rieni a gofalwyr a fu'n bresennol gael mwy o wybodaeth am roi'r system ADY ar waith yng Nghymru; rhannu eu profiadau o'r diwygiadau i ADY a'u barn am y Cod ADY â Llywodraeth Cymru; a chael cymorth a chynngor annibynnol gan dîm SNAP Cymru. Roedd y digwyddiadau a gynhaliwyd wyneb yn wyneb hefyd yn annog rhieni a gofalwyr i gyfarfod a chysylltu â theuluoedd eraill sy'n rhannu profiad uniongyrchol o ADY.
- 2.36. Mae'r sesiynau wedi rhoi adborth defnyddiol ar yr hyn sy'n mynd yn dda, ond yn bwysig ddigon, hefyd adborth rhieni a gofalwyr ar gamau gweithredu ac argymhellion i bartneriaid allweddol a'r llywodraeth i wella effeithiolrwydd y system i ddysgwyr.
- 2.37. Rydym wedi comisiynu Plant yng Nghymru i sefydlu rhaglen Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) mewn nifer o leoliadau yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod llais a hawliau plant wrth wraidd gwaith cynllunio a pholisïau. Mae'r prosiect hwn wedi dechrau ac mae'r broses recriwtio yn mynd rhagddi.

### **Y Gymraeg**

- 2.38. Un o nodau craidd y Ddeddf ADY yw creu system ddwyieithog o gymorth i ddysgwyr ag ADY. Mae addysg cyfrwng Gymraeg i bawb, ac ni ddylai'r un plentyn gael ei adael ar ôl. Fodd bynnag, mae darparwyr cyfrwng Gymraeg a theuluoedd yn parhau i fynegi pryderon ynglŷn ag argaeledd gweithlu, asesiadau ac adnoddau yn Gymraeg er mwyn helpu i adnabod plant ag ADY a rhoi darpariaeth ADY.

- 2.39. Mae cynllunio darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn rhan allweddol o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol nodi yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg sut y byddant yn defnyddio canfyddiadau eu hadolygiadau o dan y Ddeddf ADY i wella darpariaeth yn y Gymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a chynllunio'r gweithlu yn y sector ADY.
- 2.40. Rydym yn cydnabod bod mwy i'w wneud o hyd i ddatblygu adnoddau Cymraeg i ddysgwyr ag ADY. Drwy'r cwmni adnoddau addysgol dwyieithog newydd ei sefydlu, 'Adnodd', rydym yn anelu at barhau i greu adnoddau cyfrwng Cymraeg newydd i gefnogi prosesau dysgu ac addysgu o dan y Cwricwlwm i Gymru a nodi a chomisiynu adnoddau i gefnogi dysgwyr ag ADY yn well.
- 2.41. Cydnabyddir pwysigrwydd cael digon o athrawon, gweithwyr cymorth ac ymarferwyr eraill sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg i gefnogi dysgwyr ag ADY yng [Nghynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg](#). Mae'n cynnwys camau gweithredu sydd â'r nod o ddatblygu gallu ac arbenigedd yn y gweithlu i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg.
- 2.42. Er mwyn cryfhau'r cymorth a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ar gael yn Gymraeg i blant a phobl ifanc byddwn yn penodi Arweinydd Gweithredu ar y Gymraeg. Bydd y swyddog yn hwyluso'r broses o rannu arferion da ac annog y sector i gydweithio a gweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau cymaint o wybodaeth a sgiliau arbenigol â phosibl, gan ddatblygu dull cyson o ddarparu darpariaeth Gymraeg.

### **Cydweithio a mewnbwn amlasiantaethol**

- 2.43. Mae'r system ADY yn annog mwy o gydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, sy'n hanfodol i sicrhau bod anghenion yn cael eu nodi'n gynnar, a bod y cymorth cywir yn cael ei roi ar waith i alluogi plant a phobl ifanc i sicrhau deilliannau cadarnhaol.
- 2.44. Mae'r Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol Dros Dro yn nodi bod gan ALLau gydberthnasau cynhyrchiol a phroffesiynol ardderchog â Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg a'u bod yn gwneud cryn ymdrech i weithio ar sail amlasiantaethol. Mae pob bwrdd iechyd wedi ymrwymo i roi cymaint o gymorth ag sy'n ymarferol i helpu ALLau ac ysgolion drwy fynychu cyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddysgwyr unigol a chyfrannu at y broses o ddatblygu CDUau. Pan fydd hyn yn gweithio'n dda, mae dulliau cydweithredol yn ei gwneud yn bosibl i feithrin dealltwriaeth ar y cyd o'r ffordd orau o gefnogi dysgwyr unigol a'u teuluoedd.
- 2.45. Mae Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg ym mhob bwrdd iechyd wedi gwneud gwaith effeithiol i godi ymwybyddiaeth ar lefel ymarferwyr a lefel swyddogion gweithredol o ddyletswyddau'r Ddeddf a'r system ADY. Mae pob

bwrdd iechyd yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau, ond, oherwydd effaith barhaus a chronnol y pandemig, mae ymdrechion ac adnoddau yn cael eu blaenoriaethu i fynd i'r afael â'r materion difrifol hyn, a hynny'n ddealladwy, ac mae'r galw am ymwneud ymarferwyr iechyd yn fwy na'r capasiti i'w ddarparu. Er bod y Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg yn cael cefnogaeth dda gan arweinwyr gweithredol, ac yn dylanwadu ar newidiadau systemig i gefnogi egwyddorion y ffordd newydd o weithio ym mron pob bwrdd iechyd, mae ar gamau cynnar ei datblygiad.

- 2.46. Mae cryn dipyn o gynnydd wedi cael ei wneud drwy gydweithio â'r Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg. Drwy hyn bu modd i ddatblygiadau cychwynnol sefydlu dulliau cenedlaethol ar y cyd o ymdrin â materion gweithredol neu strategol penodol. Mae gweithgareddau pellach â phartneriaid cyflawni yn yr arfaeth er mwyn rhannu a mireinio'r gwaith hwn yn genedlaethol.
- 2.47. Mae effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth rhwng ALLau a byrddau iechyd yn amrywio, ond mae'n parhau i wella. Fodd bynnag, mae rhai llwyddiannau cynnar wedi cael eu sicrhau sydd wedi arwain at welliannau defnyddiol iawn i ddull cydgysylltiedig a rennir, er enghraifft paneli neu fforymau ADY amlasiantaethol (gan gynnwys y blynyddoedd cynnar ac ôl-16). Mae gan awdurdodau lleol bryderon ynglŷn â gallu gweithwyr proffesiynol i gymryd rhan ym mhroses y CDU yn gyson. Cred ychydig o arweinwyr ysgol nad yw cynrychiolwyr iechyd yn glir ynglŷn â'u rôl ym mhroses y CDU.
- 2.48. Nodir bod datblygu arferion cyson rhwng byrddau iechyd yn heriol weithiau, o ystyried bod pob un yn gwasanaethu sawl awdurdod lleol. Fel arfer, mae gan bob ALI arferion gweithredol gwahanol, systemau rheoli gwybodaeth gwahanol a ffyrdd gwahanol o gefnogi ADY. Bydd angen i fyrdau iechyd ac ALLau chwilio am ffyrdd o addasu'r ffordd y maent yn gweithredu er mwyn sicrhau cydweithio.
- 2.49. Mewn system sy'n graddol aeddfedu, mae angen gwneud rhagor o waith i gadarnhau disgwyliadau ar y cyd rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd, a gwireddu disgwyliadau gwaith rhyngbroffesiynol o ansawdd da rhwng cyrff sy'n atebol ar y cyd ym maes addysg ac iechyd. Bydd angen i weithgarwch gwerthuso ADY sicrhau bod barn a safbwyntiau Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg ac ymarferwyr iechyd yn cael eu cofnodi, er mwyn helpu i gael dealltwriaeth gytbwys o broses weithredu amlasiantaethol.

### **Cryfhau hawliau'r plentyn**

- 2.50. Sefydlodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ddyletswyddau ar awdurdodau lleol i gyflwyno system lai gwrthwynebol drwy roi gwybodaeth a chynghor ar y system ADY i bobl, gwneud trefniadau ar gyfer datrys anghytundebau a darparu gwasanaethau eirioli annibynnol i'r plant a'r bobl ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt.

- 2.51. Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i sicrhau bod gwybodaeth a chynghor diduedd ynglŷn â darpariaeth AAA/ADY ar gael i rieni, yn ychwanegol at drefniadau datrys anghydfod a gwasanaethau eirioli.
- 2.52. Mae SNAP Cymru yn rhoi cymorth diduedd dibynadwy i blant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr ledled Cymru mewn perthynas â'r system ADY. Fel rhan o'i wasanaethau, mae SNAP Cymru yn darparu gwasanaethau datrys anghytundebau i'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn is-gontractio i sefydliadau allanol, ond mae rhai yn darparu gwasanaethau mewnol diduedd.
- 2.53. Mae gan Dribiwnlys Addysg Cymru awdurdodaeth i benderfynu ar apeliadau ynglŷn ag anghenion dysgu ychwanegol, anghenion addysgol arbennig a gwahaniaethu mewn ysgolion. Gall plant oedran meithrin a phobl ifanc o 16 i 25 oed gyflwyno apeliadau neu gallant gael eu cyflwyno ar eu rhan. Mae adnoddau ychwanegol wedi cael eu darparu yn y byrdymor i swyddfa Tribiwnlysoedd Cymru er mwyn ymateb i'r llwyth gwaith ychwanegol o ganlyniad i achosion prawf a mwy o hawliau i rieni o dan y system newydd. Disgwylir i Dribiwnlysoedd Cymru gyhoeddi adroddiad blynyddol yn ystod 2023 er mwyn rhoi gwybodaeth am weithrediad cynnar apeliadau.

### **Anghenion mwy cymhleth**

- 2.54. Tynnodd adroddiad blynyddol 2021/22 Estyn sylw at y ffaith bod effeithiau cymdeithasol ac emosiynol COVID-19 sy'n parhau wedi arwain at gynnydd o ran anghenion dysgwyr a mwy o alw am wasanaethau.
- 2.55. Mae'r Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol sy'n monitro ALLau yn cytuno, gan nodi cynnydd yn nifer y dysgwyr ag anghenion cymhleth ym mhob grŵp oedran. Mae'n achos pryder penodol yn y blynyddoedd cynnar mewn perthynas â'r cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau at ALLau. O ganlyniad, bu angen i ALLau ddatblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n helpu ysgolion i sefydlu dulliau o feithrin y gallu i ddiwallu anghenion.
- 2.56. Mae pob ALI yn nodi bod ysgolion yn wynebu galw na welwyd ei debyg o'r blaen, ac sy'n parhau, i ddarparu ar gyfer ystod lawer ehangach o anghenion nag arfer mewn perthynas â llesiant cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr, gyda thuedd gynyddol o waharddiadau, amserlenni â llai o oriau, colli'r ysgol a rhai yn dewis addysg ddewisol yn y cartref. Credir bod cyllidebau llai i ysgolion wedi gwneud y sefyllfa'n waeth gan fod ysgolion yn nodi na allant fodloni gofynion cynyddol o'r fath mwyach. Mae pob ALI yn nodi bod galw cynyddol am leoliadau arbenigol, sydd dipyn yn fwy na'r adnoddau presennol.
- 2.57. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i roi grant o £9.1m i awdurdodau lleol o 2023-24, 2024-25 er mwyn ymateb i'r pwysau ychwanegol a phroblemau



cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr ag ADY.

